

Gweithdrefn Lawfeddygol dan Anaesthetig Leol

Cyn eich apwyntiad

1. **Peidiwch â bwyta ar ôl hanner nos** – mae hyn yn cynnwys cnoi gwm neu felysion wedi berwi.
2. Gallwch gael **sipiau o ddŵr tap clir tan 6.00am** ar fore'ch apwyntiad.
3. Cofiwch gael cawod neu fath - peidiwch ag ail-roi colur, farnis ewinedd.
4. Peidiwch â gwisgo ewinedd ffug, neu unrhyw glustdlysau / tlysau (ar wahân i'ch modrwy briodas).

Dewch â'r canlynol gyda chi:

- Tabledi neu feddyginiaethau cyfredol.
- Gŵn nos, sanau a slipars.

Mae'n hanfodol eich bod chi'n trefnu:

- Trafnidiaeth adref (nid trafndiaeth gyhoeddus).
- Oedolyn cyfrifol i ddod gyda chi, i'ch hebrwng adref ac yna ar gael i ofalu amdanoch am 24 awr o'r amser y cewch eich rhyddhau o'r ysbyty.

Cofiwch, dim ond plant sy'n cael eu trin all aros yn yr uned.

Wrth gael eich derbyn

1. Bydd nyrs yn eich derbyn a chewch eich gweld gan y tîm clinigol.
2. Fe fyddwn yn rhoi bras amcan i chi o'r amser y byddwch yn mynd i'r theatr unwaith y bydd yr holl gleifion wedi cael eu derbyn.

3. Cyn eich llawdriniaeth, gofynnir i chi lofnodi ffurflen gydsynio. Bydd cyfle i chi ofyn cwestiynau cyn llofnodi; mae hyn er mwyn sicrhau eich bod yn deall yn llwyr y driniaeth sy'n eich wynebu.
4. Mae'n rhaid i oedolyn / gwarcheidwad cyfreithiol lofnodi ffurflen gydsynio plant sydd o dan 16 oed.
5. Fe gewch wely a byddwn yn gofyn i chi wisgo gŵn theatr. Gallwch gadw eich dillad a'ch eiddo mewn locer wrth eich gwely; **fodd bynnag, peidiwch â dod ag unrhyw eiddo gwerthfawr gyda chi.**
6. Byddwn yn eich tywys i'r theatr ac yn eich cysylltu ag offer monitro, cyn i chi gael anesthetig.
7. Yn dilyn y llawdriniaeth, byddwch yn deffro yn yr ystafell wella a byddwch yn cael ocsigen drwy fasg.

Ar ôl eich llawdriniaeth

1. Bydd yn rhaid i chi aros yn y ward nes y credir eich bod yn ddigon da i deithio adref. Gall y nyrs roi bras amcan i chi o'r amser y byddwch yn cael gadael unwaith y rhoddir trefn ar y rhestr gleifion.
2. Fydd **dim** modd i chi yrru eich car gartref ac ni ddylech yrru am rhwng 24-48 awr arall na defnyddio peiriannau na dyfeisiau domestig. Peidiwch â llofnodi dogfennau cyfreithiol. Mae'n rhaid i chi fod gydag oedolyn cyfrifol sy'n fodlon eich hebrwng adref.
3. Ar ôl cyrraedd adref, rhaid i chi orffwyso. Bydd yn rhaid i'r sawl sy'n gofalu amdanoch aros gyda chi nes y diwrnod canlynol. Dylai plant aros yn y tŷ a dylid eu goruchwyllo am 24 awr.
4. Cewch apwyntiad dilynol hefyd os bydd angen am hynny.

Cofiwch fod Tîm Llawdriniaeth y Genau a'r Geg yma i'ch helpu.

Os oes gennych chi unrhyw ymholiadau ynghylch eich apwyntiad ffoniwch 01633 - 238372

Os ydych chi'n teimlo'n anhwylyd neu os na allwch fynd i'r apwyntiad, cofiwch gysylltu â'r adran cyn gynted â phosibl, fel y gallan nhw gynnig yr apwyntiad i rywun arall.

**"Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg /
This document is available in English".**